# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas

1st Mynydd Mawr Scouts Hall
Black Lion Road
Gorslas
SA14 6RS

Dyddiad yr arolygiad:  Rhagfyr 2024

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Campbell |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Angharad Campbell |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.45yb – 2.45yp dydd Llun – dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 2 Tachwedd 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/12/2024 |
| Mae'r sesiwn addysg i blant yn cael ei ddarparu rhwng 8.45yb a 11.45yb. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau rhifedd, llythrennedd a chorfforol plant.

A2 Datblygu ymhellach y defnydd o gwestiynu effeithiol i herio dysgu plant a datblygu eu geirfa

A3 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau’n effeithiol i gynllunio’r camau nesaf yn natblygiad y plant

A4 Mynd i’r afael â’r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) diweddar

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae llawer o blant yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a’u hymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu ymysg ei gilydd. Mae llawer o blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain wrth gyrraedd y lleoliad ac yn dewis ble i chwarae a gyda phwy. Maent yn mwynhau’r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu, megis y bwrdd byd bach Nadolig a’r ardal offer digidol. Mae llawer o blant yn mynd at ymarferwyr neu’n ymuno o fewn grŵp o ffrindiau yn ôl eu dewisiadau nhw ac yn mwynhau yn y cornel chwarae rôl, neu baentio wrth ymyl ymarferwyr. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau yn hyderus gan wybod bod ganddynt y rhyddid i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn cael mwynhad wrth arbrofi gyda thoes, darganfod yr addurniadau Nadolig yn y tinsel, a mentro i gwblhau jig-sos. Maent yn gyfforddus i ofyn am gymorth, er enghraifft, i weithio’r botymau siarad neu am gymorth i wisgo siwtiau ac esgidiau glaw.

Mae llawer o blant yn setlo’n gyflym, ac yn mynd ati i chwarae’n hapus. Mae llawer o blant yn ymdopi’n dda ac yn teimlo’n ddiogel a chartrefol. Maent yn hyderus i alw enwau’r

ymarferwyr, neu ddenu sylw'r ymarferwyr pan fo angen ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn gwybod beth sy'n dod nesaf, megis canu, tacluso neu amser snac. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Er enghraifft, yn ystod chwarae rôl, mae ychydig o blant yn sgwrsio'n hapus am eu hatgofion o ymweld â fferm i weld pengwiniaid, tra bo eraill yn hoffi sgwrsio am baratoi ar gyfer gweld Siôn Corn. Mae llawer o blant yn hoffi astudio arddangosfa o luniau teuluoedd y plant a phwyntio at aelodau teulu.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n gyfforddus ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu yn eu chwarae. Mae llawer o blant yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, yn yr awyr agored, maent yn brysur wrth arbrofi yn y twba tywod ac yn helpu eu gilydd i symud tywod o'r twba i'r cegin fwd. Mae llawer o blant yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, rhannu offer digidol megis synwyryddion metel er mwyn dod o hyd i addurniadau metel yn y tinsel. Mae ychydig o blant yn hoffi sgwrsio wrth arbrofi megis, wrth chwarae yn y twba dŵr gyda jeli oren, maent yn cymharu'r hylif i fêl. Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr ac yn awyddus i ddangos adnoddau fel botymau siarad, neu eu creadigaethau toes.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb yn eu profiadau dysgu, megis diddori wrth adeiladu trac trenau a gosod trenau yn eu trefn. Mae ychydig o blant yn canolbwyntio'n ofalus wrth gwblhau tasg addurno torch Nadolig ac yn cefnogi ei gilydd i ddefnyddio'r addurniadau sydd wedi eu paratoi iddynt. Yn ystod sesiwn cofrestru a chanu, mae ychydig o blant yn canu'n awyddus wrth baratoi am eu cyngerdd a llawer yn hoffi rhifo'r ffenestri ar y galendr Adfent. Maent yn mwynhau cyfnodau digymell, megis canu caneuon Nadolig gyda'i gilydd ar meicroffonau.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau annibynnol, er enghraifft wrth iddynt olchi a sychu eu dwylo a defnyddio llestri go iawn amser snac. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau dyddiol fel helpu i dacluso adnoddau, dychwelyd eu cadeiriau i'r byrddau, hongian eu cotiau a'u bagiau, brwsio eu dannedd a defnyddio'r tŷ bach.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn yn y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau  ac yn mwynhau gwrando ar ymarferwyr yn darllen storïau. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau darllen cynnar addas wrth droi tudalennau yn gywir i ddilyn y stori ynghyd ag adnabod eu henwau wrth ddod i eistedd ar gyfer amser byrbryd.

Gan ystyried bod y rhan fwyaf o blant yn newydd i'r Gymraeg ar fynediad i'r lleoliad, mae'r mwyafrif yn ymateb i gyfarwyddiadau cyfarwydd yn briodol, er prin yw eu hymatebion ar lafar. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau ymuno mewn sesiynau canu gan wneud symudiadau perthnasol i gyd-fynd gyda'r geiriau. Mae ychydig yn dechrau defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfarwydd yn eu chwarae gydag anogaeth oedolion, er enghraifft wrth enwi siapiau cyfarwydd wrth greu siâp roced. Fodd bynnag, nid yw llawer o blant yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llafar. Yn gyffredinol, mae llawer o blant yn arbrofi ag ystod o offer gwneud marciau yn addas gan ddangos medrau modur mân cadarn, er enghraifft wrth wneud siapau trwy ddefnyddio sialc a byrddau ysgrifennu rhyngweithiol. Yn ogystal, mae ychydig iawn yn ffurfio llythrennau cyfarwydd yn gywir wrth ysgrifennu eu henwau.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn briodol. Maent yn cyfri gwrthrychau ac yn adnabod rhifau hyd at ddeg yn gymharol hyderus, er enghraifft wrth gyfri nifer y plant sy'n bresennol. Gydag anogaeth, mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod siapau dau ddimensiwn sylfaenol yn briodol. Er hyn, prin mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'u medrau rhifedd yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae medrau digidol mwyafrif y plant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio meicroffonau a recordydd sain yn addas i recordio'u llais ac i wrando ac ymarfer geiriau ac ymadroddion syml. Gyda chymorth, maent yn defnyddio darganfyddwr metel i chwilio am wrthrychau ac yn defnyddio byrddau ysgrifennu rhyngweithiol i wneud marciau a siapau dau ddimensiwn. Mae ychydig yn defnyddio camera digidol yn briodol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o sut i adalw lluniau blaenorol, er enghraifft wrth dynnu lluniau o'u cyfoedion yn creu torch Nadolig.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau creadigol yn addas, er enghraifft wrth ddewis pa ddeunyddiau i'w gosod ar gerdyn Nadolig ac wrth greu torch Nadolig allan o gardfwrdd. Yn ogystal, mae llawer yn datblygu eu medrau modur mân yn briodol wrth ymdrin â gwrthrychau mân i greu addurniadau ac wrth rolio a chreu siapiau allan o does. Maent hefyd yn creu marciau'n dda gan ddefnyddio gwahanol offer yn gywir. Er bod ychydig o blant yn ymarfer eu medrau modur mawr trwy symud bwcedi o dywod a phridd a chymysgu'r cynnwys yn y gegin fwd, prin mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ymarfer a datblygu eu medrau corfforol yn llawn.

## Gofal a datblygiad: Digonol

Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth berthnasol am eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn dilyn trefniadau clir wrth hybu eu hiechyd a'u diogelwch. O ganlyniad, mae llawer o ymarferwyr yn gweithredu eu polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol yn ôl eu cyfrifoldebau a'u rolau ac mae ganddynt wybodaeth ddigonol. Mae gan lawer o ymarferwyr dystysgrifau

cymorth cyntaf cyfredol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu dilyn yn ystod cyfnodau byrbryd wrth iddynt annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae llawer o ymarferwyr yn ymwybodol eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt gweithdrefnau yn eu lle i weinyddu meddyginiaeth. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru trefnus ac maent yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion.

Mae gan lawer o ymarferwyr berthynas bwrpasol gyda'r plant. Maent yn garedig ac ar y cyfan yn rhyngweithio'n bositif gyda phlant ac yn eu dysgu i rannu a chymryd tro. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn rhyngweithio mewn modd sy'n ymestyn dysgu'r plant yn effeithiol. Mae llawer o ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn briodol ac yn ymateb i'w anghenion. Er enghraifft, maent yn cynnig cefnogaeth i gwblhau jig-so, ac yn esbonio trefniadau'r bore mewn modd gofalgar sy'n creu teimlad o berthyn. Mae llawer o ymarferwyr yn canmol y plant ac yn ymateb i'w gofynion unigol wrth eu hannog i geisio rhoi cynnig ar gweithgareddau, megis cyfrif i lawr i'r Nadolig a chynnig cyfleoedd dyddiol i blant rhifo'r plant yn ystod sesiwn cofrestru. Mae llawer o ymarferwyr yn eistedd gyda phlant i edrych ar lyfrau neu yn eu cefnogi i ddefnyddio byrddau marcio ac ysgrifennu eu henwau ar darnau o bapur er mwyn arddangos yn yr ardal chwarae rôl. Mae llawer o ymarferwyr yn creu awyrgylch cyfeillgar ac yn eistedd wrth y byrddau gyda'r plant yn ystod cyfnodau snac i hyrwyddo cwrteisi.

Mae llawer o ymarferwyr yn adnabod y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae llawer wrth law i gynnig cefnogaeth pan mae plant yn gofyn, er enghraifft, i sychu trwyn, newid eu dillad a golchi eu brwshys dannedd. Mae llawer o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant i gael profiadau cymdeithasol a sesiynau grŵp fel canu, ac yn adnabod pan fo'r plant yn colli diddordeb, ac yn symud ymlaen i weithgareddau eraill. Maent yn annog plant i fod yn hyderus wrth gynnig cyfleoedd iddynt i ddatrys problemau, megis sortio bwydydd pren mewn i flychau. Mae llawer o ymarferwyr yn cynnig profiadau priodol sy'n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, chwarae gyda dinosoriaid yn y pridd, llenwi a gwagio cynwysyddion a thywod a jeli.  Wrth eistedd gyda'r plant wrth y bwrdd snac, mae llawer o ymarferwyr yn cynnal trafodaethau am siapau wrth i'r plant aros i weld os mai sgwariau neu drionglau o dost sydd yn cael eu gweini. Mae llawer o ymarferwyr yn cynnig gofal perthnasol ar gyfer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn derbyn gwybodaeth a chyngor partneriaethau proffesiynol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas fuddiol gyda'r plant ac yn creu amgylchedd gartrefol a chyfeillgar ar eu cyfer. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol er mwyn annog plant i ddatblygu'u medrau llafar ac ymateb yn addas i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Yn yr arferion gorau, maent yn holi plant yn bwrpasol er mwyn eu hannog i feddwl ac i ymateb yn briodol. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro'n rhyngweithio'n ddigon effeithiol gyda'r plant er mwyn ymestyn eu dysgu a'u hannog i gyfathrebu gyda'i gilydd ac oedolion. O ganlyniad, nid yw medrau llafar llawer o blant yn ddatblygu'n ddigon effeithiol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u hunaniaeth Gymreig drwy ddarparu ystod o brofiadau dysgu buddiol. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol ac yn ddathlu digwyddiadau pwysig Cymreig. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill drwy gymryd rhan  mewn gweithgareddau yn ystod gŵyl Diwali, er enghraifft. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael i hybu  dealltwriaeth y plant o gydraddoldeb a pharch tuag at bobl eraill.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'r Cwricwlwm i Gymru a datblygiad plant yn gyffredinol. Ar y cyfan, maent yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu a chwarae sy'n ennyn diddordeb llawer o blant yn briodol. Maent yn ystyried llais y plant wrth gynllunio thema'r tymor, er nid ydynt bob tro'n addasu'r ddarpariaeth yn ddigon effeithiol i ystyried diddordebau'r plant ac i ddiwallu eu hanghenion. Er bod ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau cryno am gyflawniad a datblygiad plant, nid ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau hyn yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o blant bob tro'n ymgysylltu'n ddigon pwrpasol yn eu dysgu er mwyn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol tu fewn, sy'n galluogi plant i wneud dewisiadau'n lled annibynnol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau esgus coginio yn y gornel chwarae rôl ac yn arbrofi gyda blociau yn y safle adeiladu i greu gwahanol adeiladau. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn darparu ystod addas o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac i greu marciau. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at eu dealltwriaeth o bwrpas ysgrifennu ynghyd â chryfhau eu medrau modur mân. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i blant ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol trwy eu chwarae. Yn ogystal, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol i ddatblygu medrau plant yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn ymyrryd yn briodol i annog plant i ddeall rheolau ymddygiad elfennol fel rhannu teganau a chymryd tro. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i blant ymweld â'r ardal leol yn achlysurol, sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y parc cyfagos ac yn perfformio cyngherddau yn yr eglwys leol.

### Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr amgylchedd tu fewn a thu allan yn ddiogel a glân ac yn sicrhau lefelau cadarn o ddiogelwch wrth i blant gyrraedd a gadael. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon ac maent yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth mewn cwpwrdd clo. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae'r arweinydd yn sicrhau ei bod yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd. Mae'r arweinydd yn cynnal asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu a'u defnyddio mewn modd effeithiol. Trafodwyd risgiau allanol blaenorol, sydd bellach wedi'u datrys yn effeithiol trwy ddefnydd o arian grant gan gynnwys ffens cadarn, giât a chlo a rhwystrau naill ochr i'r grisiau allanol. Mae'r arweinydd yn sicrhau ei bod yn adnabod risgiau a bod asesiadau risg pwrpasol a gweithdrefnau clir yn eu lle. Pan fo angen camau gweithredu pellach, mae'r rheini yn cael eu nodi hefyd er ceir oedi ar adegau cyn iddynt gael eu gweithredu. Mae'r arweinydd yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae'n paratoi byrddau gwybodaeth sy'n arddangos gwybodaeth eang am staff, polisïau, tystysgrifau a gweithdrefnau diogelu priodol. Fodd bynnag, nid yw'r holl wybodaeth bob amser yn briodol.

Mae'r arweinydd yn cynnig amgylchedd hunangynhwysol a chroesawgar. Mae'n darparu derbynfa, prif ystafell lle ceir ardaloedd chwarae agored, cegin ar gyfer paratoi snaciau ac ardal preifat i blant, megis y tai bach sydd wedi eu hadnewyddu oddi ar yr arolwg diwethaf. Mae'r lleoliad wedi ei drefnu mewn ffordd sy'n fuddiol i'r nifer o blant sy'n mynychu'n ddyddiol. Mae'r arweinydd wedi cyflwyno ardal storio cotiau a bagiau'r plant, ac mae gan blant fynediad rhwydd i'r offer a'r adnoddau digonol sydd wedi eu storio mewn unedau isel o amgylch y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd tu fewn yn cynnig mynediad parhaus i blant gael chwarae, megis ardaloedd llyfrau, marcio, crefft, adeiladu a chwarae rôl. Yn ystod cyfnodau chwarae yn yr awyr agored, mae'r arweinydd yn sicrhau bod gan blant mynediad i ardal gwair ar lethr sy'n cynnig darpariaeth benodol fel chwarae dŵr, tywod, adeiladu, archwilio, plannu a marcio. Maent wedi creu amgylchedd digonol sydd yn parhau i ddatblygu drwy arian grant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio ychydig o gyfleoedd dysgu i blant i fwynhau profiadau garddio, arbrofi a defnyddio offer go iawn fel sosbenni a bwcedi. Maent yn

cynnig bocs storio penodol ar gyfer dillad ac esgidiau glaw y plant ac mae plant yn mwynhau'r annibyniaeth i wisgo rhain.

Mae'r arweinydd yn darparu adnoddau amrywiol i blant ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i gyfarpar o ansawdd da, sy'n eu galluogi i ddewis a dilyn eu diddordebau. Yn gyffredinol, maent yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant trwy gynnig profiadau i ddysgu am eu cymuned, am amrywiaeth ac am y byd amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae ganddynt doliau a llyfrau o wledydd y byd, ac yn addasu'r amgylchedd megis, creu Caffi Tsieineaidd. Yn ogystal, maent yn darparu arddangosfeydd o ddathlu dyddiadau penodol megis dydd Cofio, diwrnod y Llyfrau, dydd Gŵyl Dewi, tân gwyllt a'r Pasg. Maent yn croesawu rhieni a theuluoedd i gymryd rhan mewn achlysuron dros y flwyddyn ac yn hybu ethos o ailgylchu a chynaladwyedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd i greu awyrgylch hapus, cyfeillgar a chynnes. Mae gan yr arweinydd weledigaeth addas sy'n seiliedig ar ddarparu addysg a gofal cyfrwng Cymraeg i blant er mwyn eu paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'n rhannu hyn yn llwyddiannus gyda'r staff, rhieni ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu gwaith y lleoliad yn briodol.

Yn gyffredinol, mae'r arweinydd yn gwneud defnydd addas o weithgareddau hunanwerthuso buddiol i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Yn ogystal â gwrando ar adborth rhieni a gofalwyr, mae hi'n gwrando a gweithredu'n addas ar gyngor oddi wrth rhanddeiliaid fel swyddogion yr awdurdod lleol, i gefnogi'r broses. Mae'r arweinydd yn adnabod blaenoriaethau gwella priodol. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys mewn cynllun gwella sy'n adnabod yr angen i wella medrau cyfathrebu plant ac i ddatblygu'r ddarpariaeth tu allan. Er hyn, nid yw'r arweinydd wedi mynd i'r afael yn ddigon effeithiol â'r argymhellion pwysig o arolygiad diwethaf Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor i sicrhau eu bod yn dyrannu'r cyllid yn briodol yn ôl yr angen. Maent yn defnyddio grantiau yn addas er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac i gefnogi grwpiau penodol o blant, gan gynnwys yr ychydig sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn sicrhau trefniadau recriwtio diogel ac yn cynnal gweithdrefnau gwerthuso perfformiad staff yn rheolaidd. Ar y cyfan, mae'n darparu cefnogaeth a hyfforddiant addas i gefnogi anghenion y staff. Er hyn, nid yw targedau a osodwyd bob tro yn ddigon miniog nac yn ddigon perthnasol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol.

Mae gan yr arweinydd ac ymarferwyr berthynas agos gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda nhw am les a datblygiad cyffredinol eu plant yn rheolaidd.

Maent yn cwrdd gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn anffurfiol yn ddyddiol ac yn rhannu gwybodaeth gyda nhw'n rheolaidd trwy ap digidol. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y lleoliad a'r cartref ac yn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr gwybodaeth gyfoes am ddatblygiad eu plant.

Mae'r arweinydd yn hybu ac yn annog cysylltiadau buddiol gyda'r gymuned leol sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant a sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned. Mae hyn yn cynnwys cynnal trafodaethau achlysurol gydag arweinwyr ysgolion lleol er mwyn cefnogi trefniadau trosglwyddo'r plant ac i'w paratoi nhw ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Maent hefyd yn cydweithio'n dda gyda chwmnïau a busnesau lleol, er enghraifft trwy weithio gyda busnes i argraffu dyluniadau cardiau Nadolig y plant. Yn ogystal, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol o fewn yr ardal i gynnig profiadau  i blant ymgysylltu gyda phlant eraill ac i gryfhau'r ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn mabolgampau yn yr ysgol leol ac yn mynychu'r eisteddfod leol ym mhentref Cefneithin.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2025